# CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
## PWYLLGOR CYLLID
## CYNHALIWYD AR 11 IONAWR 2024 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod trwy gyswllt fideo yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

*Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Jeff Thomas. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol i fod yn bresennol i drafod y gyllideb ar gyfer 2024/25.*

**PRESENNOL:** Cynghorwyr: Heledd ap Gwynfor, Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Alun Lenny (Fideo), Miriam Moules, Emlyn Schiavone, Jeff Thomas, Wyn Thomas, Barry Williams a Luned Voyle.

Emma Smith – Clerc y Dref
Wendy Dickson – Dirprwy Glerc y Dref

### 284. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tom Defis, Andy King, Ioan Matthews, a Russell Sparks.

### 285. Datgan Buddiannau

Cyng. Emlyn Schiavone am eitem 291 fel ymddiriedolwr o Oriel Myrddin.

### 286. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn ar gyfer Talu Atodlenni Cyfrifon Ionawr 2024.

Ystyriodd yr aelodau y taliadau ac roeddent yn fodlon â'r rhestr. Cynigiodd y Cyng. Wyn Thomas y dylid cymeradwyo'r rhestr daliadau gwerth cyfanswm o **£13,444.95** a'i llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc. Eiliodd y Cyng. Gareth John y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r holl daliadau.

### 287. Adroddiad Clerc y Dref

### (a) Adroddiad Ariannol

Roedd balansau Banc y Cyngor ar 31 o Rhagfyr 2023 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| HSBC Cyfrif Cyfredol | £97,818.97 |
| HSBC Cyfrif Wrth Gefn | £653,301.94 |
| **Cyfanswm yn y banc** | **£751,120.91** |

Balansau mewn Cyfrifon Eraill ar 31 Rhagfyr 2023:

Lwfans Maer - £3,223.70
Ras Hwyl y Maer - £5,072.13

- Cyfanswm y gwariant gros ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 o Rhagfyr 2023 oedd £649,963.41.
- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod, oedd £157,472.97. Y gwariant net cyffredinol felly yw £492,490.44.
- Y Gyllideb Net/gofyniad Praesept ar gyfer 2023/24 yw £793,011 sydd i gyd wedi dod i law. Bydd yr aelodau'n nodi o'r uchod bod y Cyngor o fewn y gyllideb ar 31 Rhagfyr 2023.
- Derbyniwyd rhandaliad terfynol y praesept ar 22 Rhagfyr 2023.
- Trosglwyddwyd £250,000 i'r cronfa wrth gefn o'r cyfrif cyfredol ym mis Rhagfyr.

**NODWYD** yr adroddiad ariannol.

**288. Diweddariad Chwaterol o'r Gyllideb**

Penderfynodd yr aelodau y dylid **CYMERADWYO'R** diweddariad cyllideb chwarterol.

**289. Cysoniad Banc Chwarterol**

Penderfynodd yr aelodau y dylid **CYMERADWYO'R** cysoniadau banc ar gyfer y chwarter.

**290. Rhestr o Ddyledwyr**

Cafodd yr amserlen ei **CHYMERADWYO** gan y Pwyllgor

**291. Cyllideb Ddraft Cyngor Tref 2024/2025**

*Datganodd y Cyng. Emlyn Schiavone fuddiant fel un o ymddiriedolwyr Oriel Myrddin.*

Roedd adroddiad gyda gwybodaeth ategol berthnasol wedi'i ddosbarthu i'r holl aelodau cyn y cyfarfod, a oedd bellach yn cael ei gyflwyno i'r aelodau gan Glerc y Dref. Cafwyd trafodaeth faith wrth ystyried cynigion cyllideb y Cyngor a lefel y praesept ar gyfer 2024/25.

Cyfanswm incwm a gwariant rhagamcanol y Cyngor ar gyfer 2024/25 yw £932,625 a £1,124,891 yn y drefn honno. Mae'r incwm yn cynnwys praesept y cyngor ac arian a dderbyniwyd o werthu a llogi nwyddau a gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r gwariant yn cynnwys gwariant refeniw, gwariant cyfalaf, buddion cymunedol (grantiau) a gweithgareddau a digwyddiadau canol tref.

Yn dilyn trafodaeth gan aelodau, cynigir y prosiectau cyfalaf canlynol yn ystod 2024/25:

| **PROSIECTAU CYFALAF 2024-25** | |
|---|---|
| a) Profi diogelwch cofebion yn y fynwent (blwyddyn 3 o 3) | 3,250 |
| b) Cloddiwr newydd i'r fynwent | 30,000 |
| c) Ffitiadau ac offer newydd ar gyfer y siop de | 3,500 |
| d) Wal Parc Hinds | I'w gadarnhau |
| e) Peiriannau torri gwair | 4,500 |
| f) Caeadau newydd i'r fynwent a'r eisteddle | 35,000 |
| g) Biniau newydd i'r parciau a'r fynwent (cyfraith newydd) | 1,500 |
| | **77,750** |

**Cyfraniadau Cyngor Tref i Ddigwyddiadau a Sefydliadau:**

| | |
|---|---|
| **Cyfraniadau Cymunedol (Grantiau)** | 7,000 |
| **Gweithgareddau Canol y Dref** | |
| Gwobrau Chwaraeon Blynyddol | 1,000 |
| Dydd Gŵyl Dewi | 3,000 |
| Gwobrau Safle Harddaf | 500 |
| Gŵyl yr Afon | 2,000 |
| Gŵyl Canol Dref | 2,000 |
| Gŵyl y Daffodil | 2,600 |
| Cynhadledd Hinsawdd | 700 |
| Sul y Cofio | 800 |
| Digwyddiadau Nadolig | 10,000 |
| Gosod goleuadau Nadolig | 10,000 |
| Addurniadau Nadolig newydd | 10,000 |
| IS-GYFANSWM | **42,600** |
| | |
| **CYFANSWM** | **49,600** |

**ARGYMHELLODD** yr Aelodau y dylid uno'r pot ar gyfer cyfraniadau cymunedol yn un gronfa lai o £7,000.

- Prosiectau Cyfalaf. Roedd yr holl aelodau o blaid y rhestr fel y cyflwynwyd ac **ARGYMHELLWYD** ei chymeradwyo gan y Cyngor.
- Cyfraniadau cymunedol a gweithgareddau canol y dref. **ARGYMHELLWYD** y rhestr fel y'i cyflwynwyd, cyfanswm o £49,600 i'r Cyngor i'w gadarnhau. Yr oedd yr holl aelodau o blaid.

- <u>Cyllideb 2024/25</u>.**ARGYMHELLODD** y Pwyllgor y gyllideb fel y cyflwynwyd gyda’r newidiadau isod i fynd i afael â'r diffyg:

  i. Diwygio stoc y Siop De o £20,000 i £10,000.
  ii. Lleihau arian sydd wedi'i glustnodi ar gyfer system gwres y capel o £12,000 i £2,000
  iii. Gostyngiad mewn gwariant dinesig a lwfansau aelodau i arbed £5,500

Cynigiodd y Cyng. Alun Lenny y dylid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyd at £24,500 gyda'r Clerc yn atgoffa aelodau bod y lefel bresennol o gronfeydd wrth gefn yn is na'r lefel a argymhellir gan Archwilio Cymru. Cafodd y cynnig hwn ei eilio gan y Cyng. Wyn Thomas a phleidleisiodd yr aelodau 5 yn erbyn 4 o blaid ac **ARGYMHELLWYD** y cynnig i’r Cyngor.

Cynigiodd y Cyng. Alun Lenny fod angen adolygiad o'r incwm a'r gwariant yn y Siop De. Roedd yr aelodau'n cytuno, a chan ofyn am opsiynau ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn cael eu hystyried, **ARGYMHELLWYD** yr adolygiad i'r Cyngor.

Gweler **Atodiad 1** am fanylion llawn o’r newidiadau.

- <u>Praesept 2024/25</u>. Ar ôl trafodaeth hir ynglŷn â'r gyllideb a'r praesept ar gyfer 2024/25, cynigiwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone, eiliwyd gan y Cyng. Heledd ap Gwynfor bod y praesept yn cael ei gynyddu i £924,161 neu gynnydd o £2.07 y mis dros 10 mis ar gyfer eiddo Band D. Gyda saith o blaid a dau yn erbyn, **ARGYMHELLWYD** y cynnydd ar gyfer 2024/25 i'r Cyngor.

**292. Prynu Cadwyn arall i’r Ddirprwy Faer**

Ystyriodd y Pwyllgor opsiynau ar gyfer prynu cadwyn Dirprwy Faer o dri chwmni ar wahân. Cynigiodd y Cyng. Heledd ap Gwynfor brynu cadwyn o gwmni Vaughtons, ar gost o £3,998 a fyddai'n cynrychioli arbediad o £2,178 drwy beidio â phrynu cadwyn newydd tebyg at ei debyg. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Luned Voyle gyda'r holl Aelodau yn cytuno ac **ARGYMHELLWYD** y gadwyn i’r Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:50 y.h**